**Y Diweddaraf am Waith Teg**

1. Ddechrau'r llynedd, dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn uchelgais ganddo wneud Cymru yn Genedl Gwaith Teg, lle gall pawb gael swyddi gwell yn nes adref, lle gallwn ddatblygu'n sgiliau a'n gyrfaoedd, cael gwaith boddhaol sy'n gwella'n bywydau, heb i neb gamfanteisio arnom a heb ddioddef tlodi, a lle rydyn ni i gyd yn creu ffyniant ac yn rhannu'r ffyniant hwnnw.

2. Sefydlwyd Bwrdd Gwaith Teg a oedd yn cynnwys aelodau Grŵp Strategaeth Partneriaeth Gymdeithasol Llywodraeth Cymru − TUC Cymru, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, y Ffederasiwn Busnesau Bach a Commerce Cymru. Roedd Prif Weithredwr Chwarae Teg yn bresennol yn y cyfarfod hefyd. Roedd yn fforwm ar gyfer trafodaeth gychwynnol am ddatblygu Gwaith Teg. Llwyddodd i ddechrau nodi rhai o’r bylchau o ran tystiolaeth a hefyd yr ysgogiadau sydd ar gael ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo Gwaith Teg ledled Cymru.

3. Ym mis Gorffennaf eleni, penododd y Prif Weinidog y Comisiwn Gwaith Teg; panel bach annibynnol o arbenigwyr a fydd yn bwrw ymlaen â gwaith cychwynnol y Bwrdd Gwaith Teg.

4. Dyma aelodau’r Comisiwn:

    - Y Cadeirydd yw’r Athro Linda Dickens MBE, Athro Emeritws Cysylltiadau Diwydiannol ym Mhrifysgol Warwick. Mae Linda yn academydd ar y lefel uchaf un ac mae ganddi enw ardderchog yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ym maes cysylltiadau diwydiannol. Mae Linda wedi dangos bod ganddi hanes o lwyddo wrth ddefnyddio’i gwybodaeth a’i harbenigedd ar draws y sector cyhoeddus a’r sector preifat, gan gynnwys gwneud hynny drwy nifer o benodiadau cyhoeddus. Tan yn ddiweddar, roedd Linda, sydd â phrofiad eang fel cymrodeddwr, cyfryngwr a chadeirydd ymchwiliadau ym maes anghydfodau llafur, yn un o Ddirprwy Gadeiryddion y Pwyllgor Cymrodeddu Canolog a bu’n gwasanaethau ar Gyngor y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS). Ar hyn o bryd, mae’n aelod Anweithredol o Fwrdd yr Awdurdod Atal Meistri Gangiau a Cham-drin ym maes Cyflogaeth.

    - Sharanne Basham-Pyke yw Cyfarwyddwr Shad Consultancy Ltd. Mae’n rhoi cyngor busnes proffesiynol a chyngor ar reoli newid i’r sector preifat, y sector cyhoeddus a’r trydydd sector. Hi hefyd yw Prif Swyddog Gweithredol Talkflow, busnes meddalwedd newydd, ac mae ganddi yrfa portffolio fel Angel Busnes ar gyfer nifer o fusnesau bach sydd â dyhead cyffredin – yr awydd i dyfu. Yn y byd corfforaethol y mae cefndir Sharanne. Ymunodd â BT ym 1999 o gefndir mewn gwasanaethau ymgynghori ym maes rheoli.

    - Cafodd yr Athro Edmund Heery, sy’n hanu o Lerpwl, ei addysgu ym mhrifysgolion Caergrawnt ac Essex ac yn Ysgol Economeg Llundain. Mae wedi bod yn Athro Cysylltiadau Cyflogaeth yn Ysgol Fusnes Caerdydd ers 1996. Mae’r Athro Heery yn arbenigwr ar waith a chyflogaeth yn y DU ac mae wedi cyhoeddi ymchwil ar undebau llafur, sefydliadau cyflogwyr a’r

rhan sydd gan gymdeithas sifil i'w chwarae wrth hyrwyddo tegwch ym myd gwaith. Yn ei waith ymchwil diweddaraf, mae wedi bod yn edrych ar Gyflog Byw gwirfoddol y DU, a hefyd ar sut mae'n cael ei fabwysiadu yng Nghymru.

- Ymddeolodd Sarah Veale CBE fel Pennaeth Cydraddoldeb a Hawliau Cyflogaeth gyda'r TUC yn 2015. Roedd yn gyfrifol yno am waith y sefydliad ar gydraddoldeb ac ar hawliau undebau llafur a chyflogaeth. Roedd yn aelod o Fwrdd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol tan fis Ionawr 2017. Mae'n aelod o'r Pwyllgor Polisi Rheoleiddio, sy'n cynnal asesiadau annibynnol o gynigion rheoleiddio a dadreoleiddio'r Llywodraeth. Mae Sarah yn un o Gyfarwyddwr Anweithredol Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig. Mae'n gymrawd gwadd yn Ysgol Fusnes Prifysgol Greenwich ac yn un o Is-gadeiryddion y Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae Sarah yn un o Is-lywyddion Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd. Yn y gorffennol, bu Sarah yn aelod o Gyngor y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) ac o Fwrdd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Cafodd Sarah y CBE yn 2006 am ei gwasanaeth ym maes amrywiaeth. Yn 2012, cafodd Sarah Ddoethuriaeth er Anrhydedd mewn Cyfreithiau gan Brifysgol Oxford Brookes.

5. Mae'r Comisiwn yn cael ei gefnogi gan yr Athro Alan Felstead – Cynghorydd Arbenigol Annibynnol y Comisiwn. Mae'r Athro Felstead yn Athro Ymchwil yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd. Mae ei waith ymchwil yn canolbwyntio ar sgiliau, hyfforddiant ac ar amryfal agweddau ar ansawdd swyddi. Mae wedi denu £7.3 miliwn o incwm ymchwil ac mae'n awdur ar fwy na 200 o gyhoeddiadau. Ar sail tystiolaeth sydd wedi deillio o'i ymchwil, mae wedi rhoi cyngor arbenigol annibynnol i adrannau'r llywodraeth, megis yr Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, ac i asiantaethau fel Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth, a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

6. Dyma gylch gorchwyl y Comisiwn:

   - "Disgwylir i'r Comisiwn wneud argymhellion er mwyn hyrwyddo a hybu gwaith teg yng Nghymru, gan wneud hynny ar sail tystiolaeth a gwaith dadansoddi."

   - Bydd y Comisiwn yn datblygu dangosyddion a ffyrdd o fesur gwaith teg ac yn nodi ffynonellau data er mwyn helpu i fonitro'r cynnydd a wneir. Bydd yn ystyried a ellid datblygu'r ffyrdd o fesur sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd er mwyn hyrwyddo gwaith teg, yn nodi pa gamau newydd neu ychwanegol y gellid eu cymryd, gan gynnwys deddfwriaeth newydd, ac yn cyflwyno argymhellion.

   - Bydd y Comisiwn yn dechrau ar ei waith ym mis Gorffennaf 2018 ac yn cyflwyno'i adroddiad erbyn mis Mawrth 2019."

7. Mae'r Comisiwn wedi cyfarfod ddwywaith ac mae'r nodiadau am y cyfarfodydd hynny i'w gweld ar wefan y Comisiwn: https://beta.llyw.cymru/comisiwn-gwaith-teg

8. Bydd y Comisiwn yn ystyried yr ymchwil a'r gwaith dadansoddi sydd ar gael eisoes ac yn mynd ati yn ystod mis Hydref i ofyn am dystiolaeth a fydd yn mynd i'r afael â'r cwestiynau allweddol sy'n rhan o'i gylch gorchwyl.

9. Bydd y Comisiynwyr yn cynnal cyfarfodydd gyda:

   - chyflogwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat
   - cyrff cynrychiadol
   - undebau llafur
   - cyrff cydraddoldeb
   - rhanddeiliaid pwysig eraill.

10. Bydd yn ymateb hefyd i geisiadau am gyfarfodydd a wneir gan bartïon eraill â diddordeb.

11. Lansiodd y Comisiwn ei Gais am Dystiolaeth ar 12 Hydref ar wefan y Comisiwn Gwaith Teg https://beta.llyw.cymru/comisiwn-gwaith-teg a bydd modd cyflwyno tystiolaeth tan 19 Tachwedd 2018.

12. Mae'r Cais am Dystiolaeth yn cael ei anelu at amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae'r Comisiwn yn dymuno elwa ar ystod eang o brofiad, safbwyntiau ac ymchwil sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Comisiwn Gwaith Teg. Nid ymgynghoriad am gynigion sydd wedi cael eu datblygu eisoes mohono ond yn hytrach gais yn gynnar yn y broses i helpu'r Comisiwn i baratoi ei gynigion ac i lunio'r argymhellion a fydd yn eu cyflwyno i'r Gweinidogion.